COLEG MEIRION-DWYFOR



ADRODDIAD BLYNYDDOL

2006/2007

Fersiwn Cymraeg o ddogfen ddwyieithog yw hwn.

Cynnwys

Cyflwyniad y Cadeirydd	Tudalen 3
Datganiad y Pennaeth	Tudalen 4
Darpariaeth y Coleg	Tudalen 5
Cefnogaeth i Fyfyrwyr	Tudalen 5
Ansawdd	Tudalen 6
Cyfranogiad	Tudalen 6
Staffio	Tudalen 7
Adnoddau	Tudalen 7
Trefn lywodraethol	Tudalen 8

Bwrdd y Gorfforaeth

Enw	Cartref	Categori	Nodyn
Mr John Tudor CBE	Dolgellau	Busnes	Cadeirydd
Mr John Griffiths	Nefyn	Busnes	Is-gadeirydd
Mr E Marshall Davies	Dolgellau	Busnes	
Mr R J S Roberts	Aberystwyth	Busnes	
Mr Hedd Pugh	Dinas Mawddwy	Busnes	
Mr Gwyn Williams	Bethel	Busnes	
Mrs Lonna Bradley	Ffestiniog	Cymunedol	
Mr John W Griffith	Llandegfan	Cymunedol	
Mrs Nansi Thirsk	Y Bala	Cyfetholedig	
Mr John M Edwards	Pwllheli	Cyfetholedig	
Mr David Hicken	Penrhyndeudraeth	Cyfetholedig	
Mr Wyn Meredith	Dolgellau	A.A.Ll.	
Mr John Cadwalader	Dolgellau	Rhiant	
Ms Minoo Rabbani	Dolgellau	Rhiant	
Dr Ian J Rees	Cricieth	Pennaeth	
Mr Clive Taylor	Waunfawr	Aelod Staff	
Mr Eifion Owen	Pwllheli	Aelod Staff	
Mr Robat Huw		Myfyriwr	

Clerc y Gorfforaeth:

Mr John Taylor

Coleg Meirion-Dwyfor
Safle Dolgellau
Ffordd Ty'n y Coed
Dolgellau
Gwynedd
LL40 2SW
Ffôn: (01341) 422827
Ffacs: (01341) 422393

Coleg Meirion-Dwyfor
Safle Glynllifon
Ffordd Clynnog
Caernarfon
Gwynedd
LL54 5DU
Ffôn: (01286) 830261
Ffacs: (01286) 831597

Coleg Meirion-Dwyfor
Safle Pwllheli
Penrallt
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5UB
Ffôn: (01758) 701385
Ffacs: (01758) 701659

e-bost – coleg@meirion-dwyfor.ac.uk
rhyngrwyd: http://www.meirion-dwyfor.ac.uk

Fersiwn Cymraeg o ddogfen ddwyieithog yw hwn.

Cyflwyniad y Cadeirydd

Unwaith eto, mae'n bleser o'r mwyaf gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol Corfforaeth Coleg Meirion-Dwyfor. Ar y tudalennau canlynol, cewch olwg cyffredinol ar weithgareddau'r Coleg yn ystod 2006/2007.

Fel darparwr addysg a hyfforddiant o safon uchel, mae Coleg Meirion-Dwyfor yn parhau i weithredu mewn cyfnod llawn newidiadau ac ansicrwydd. Crëwyd llawer o ansicrwydd yn sgil cyflwyno methodoleg gynllunio a chyllido newydd AADGOS (y System Gynllunio a Chyllido Genedlaethol – SGChG), a'r angen cynyddol i wneud ceisiadau am gyllid ar gyfer prosiectau. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd dros ben i gynllunio'n strategol. Datblygiad arwyddocaol arall yn ystod 2006/2007 oedd sefydlu Adolygiad Webb o genhadaeth a phwrpas addysg bellach yng Nghymru.

Er bod llawer o ansicrwydd yn parhau, mae'n braf gallu adrodd bod rhai pethau **yn** aros yr un fath:

- Mae'r Coleg yn dal i ddarparu addysg a hyfforddiant o safon sy'n gyson uchel – rydym bob amser yn ymfalchïo yng nghanlyniadau arholiadau ein myfyrwyr, ac mae'r Gorfforaeth yn falch fod y Coleg yn gallu parhau i ddarparu yn yr ardal addysg o safon uchel sy'n rhoi sail gadarn dros ben i'n myfyrwyr ar gyfer eu hastudiaethau pellach a'u gyrfaoedd.
- Y nifer fawr o fyfyrwyr sy'n adeiladu ar y sail hon ac yn mynd ymlaen i addysg uwch – mae'r nifer o fyfyrwyr sy'n mynd ymlaen i astudio ymhellach yn galonogol ac yn llwyddiant arall yr ydym yn ymfalchïo ynddo.
- Yr ystod eang o ddarpariaethau dwyieithog y mae'r Coleg yn parhau i'w cynnig – nid oes unrhyw sefydliad addysgol arall yng Nghymru (o blith y colegau na'r sector ôl-16) yn darparu ystod mor eang o gyfleoedd dwyieithog i'w fyfyrwyr a'i ddalgylch.

Bedair blynedd yn ôl, rhoddodd y Gorfforaeth mewn grym strategaeth ariannol a fyddai'n adennill gwarged gweithredol y Coleg, ac mae'n braf gweld, yn 2006/2007, fod y nod strategol hwn wedi'i wireddu, gyda'r Coleg yn cofnodi Gwarged Gweithredol o dros £100,000 – er gwaethaf pwysau ariannol cynyddol o'r tu allan.

I gloi, diolchaf i aelodau'r Gorfforaeth am yr amser a'r ymdrech y maent wedi'u rhoi i waith y Gorfforaeth a'r Coleg. Gwerthfawrogir yn fawr eu doethineb a'u brwdfrydedd afu'n anhepgor i'r gwaith.

Mae'r Coleg yn edrych ymlaen at ddyfodol disglair – dyfodol a seilir ar lwyddiannau ein myfyrwyr presennol a'n darpar fyfyrwyr.

Mr John E Tudor CBE
Cadeirydd y Gorfforaeth

Datganiad y Pennaeth

Pleser yw cyfrannu i Adroddiad Blynyddol y Gorfforaeth eto eleni. Achubaf ar bob cyfle i ddwyn llwyddiannau ein myfyrwyr a'n staff i sylw'r cyhoedd, ac yn bersonol, rwyf yn hynod falch o'r modd y llwydda'r Coleg i gyfrannu tuag at gyflawniadau pobl eraill. Mae'r Adroddiad hwn yn rhoi cyfle o'r fath i mi.

Yn addysgol, cafwyd blwyddyn lwyddiannus dros ben, gyda'r safonau'n parhau'n uchel. Mae cyfran uchel o'n myfyrwyr 16-18 oed yn mynd ymlaen i addysg uwch ac, heb amheuaeth, maent hwy, yn ogystal â'r ardal a'r sir, ar eu hennill o'r herwydd.

Rydym yn parhau i adeiladu ar ddatblygiadau cwricwlaidd y blynyddoedd diwethaf, gan ymfalchïo'n arbennig yn y canlynol:

- Y gwaith cynyddol a wneir gyda disgyblion 14-16 oed o ysgolion uwchradd lleol er mwyn darparu amrediad ehangach o gyrsiau ar eu cyfer. Dyma enghraifft o'r Coleg yn rhoi agenda Llwybrau Dysgu 14-19 ar waith.
- Rôl gynyddol (ac arweiniol) y Coleg ym maes addysgu cyfrwng-Cymraeg drwy gyswllt fideo. Datblygodd y rôl hon yn gyflym, a bellach mae gan y Coleg le canolog mewn datblygiadau o'r fath ledled Cymru.
- Cwblhau'r prosiect CEGIN yn Nolgellau, sy'n darparu'r adnoddau arlwyo gorau a diweddaraf i'r myfyrwyr a'r staff.

Nid wyf byth yn blino llongyfarch y staff a gyflogir gan y Coleg. Mae'r Coleg yn ffodus iawn o'i staff, ac o'r gefnogaeth a'r arweiniad a roddant i'r myfyrwyr. Carwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch yn ddiffuant i'r holl staff am eu cyfraniad cyson at lwyddiant y Coleg.

Nid yw cyfyngiadau cyllido'r Coleg wedi newid. Rydym wedi cymryd camau sylweddol i aildrefnu'n cyllideb, ac mae'n bleser nodi bod y strategaeth ariannol a roddodd y Gorfforaeth mewn grym rai blynyddoedd yn ôl wedi llwyddo ac wedi deillio ar warged gweithredol yn 2006/2007. Mae'n drist, fodd bynnag, fod y Coleg yn mynd i barhau o dan bwysau ariannol, a'n bod wedi gorfod datblygu strategaeth newydd er mwyn sicrhau gwargedion gweithredol blynyddol yn y dyfodol. Nid yw'r SGChG yn fethodoleg gyllido sy'n ffafrio darpariaeth na darparwyr mewn ardaloedd gwledig.

Yn ogystal â diolch i staff y Coleg, carwn hefyd ddiolch i aelodau'r Bwrdd Llywodraethu am eu cefnogaeth a'u cyngor bob amser. Mae arnaf ddyled arbennig i Gadeirydd y Gorfforaeth, Mr John Tudor, am ei ddoethineb, ei arweiniad a'i gefnogaeth.

Dr Ian J Rees
Pennaeth a Phrif Weithredwr

Darpariaeth y Coleg

Mae Coleg Meirion-Dwyfor yn cynnig ystod eang o raglenni astudio i fyfyrwyr. Ar safleoedd Dolgellau a Phwllheli, cynigir 25 cwrs Lefel A ac AS a thros 35 o gyrsiau galwedigaethol amser llawn (TAAU, GNVQ, NVQ Diploma Cyntaf a Diploma Cenedlaethol). Mae'r ddau safle hefyd yn cynnig cyrsiau addysg uwch (BA a TAOR).

Yng Nglynllifon, mae cyrsiau diwydiannau'r tir yn cynnwys Amaethyddiaeth, Peiriannau Fferm, Coedwigaeth, Cadwraeth ac Astudiaethau'r Amgylchedd, Gofalu am Anifeiliaid Bach, Astudiaethau Ceffylau, a chyrsiau i fyfyrwyr Anghenion Arbennig. Cynigir cyrsiau Addysg Uwch hefyd yng Nglynllifon.

Mae'r Coleg yn darparu hefyd hyfforddiant i unigolion ar gynlluniau'r llywodraeth, fel Cynlluniau Hyfforddi ar gyfer Gwaith, Dysgu seiliedig ar Waith, Prentisiaeth Fodern ac ati. Gwneir hyn hefyd drwy gytundebau AADGOS (yng nghanolbarth a gogledd Cymru). Cynigir ystod o gyrsiau i staff cwmnïau a chyrff cyhoeddus hefyd ac mae hwn yn faes yr hoffai'r coleg ei ddatblygu ymhellach.

Maes gwaith sy'n datblygu yn y coleg yw'r gwasanaeth addysgu drwy gyswllt fideo a gynigir i golegau ac ysgolion eraill (yn enwedig cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg). Cafodd y cyrsiau hyn, y rhai i fyfyrwyr a'r rhai ar gyfer datblygu staff, groeso mawr, a byddant yn parhau i dyfu.

Er bod y rhan fwyaf o'r myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau amser llawn rhwng 16 a 19 oed, mae nifer sylweddol o oedolion yn dilyn cyrsiau amser llawn yn ogystal â chyrsiau rhan-amser yn y gymuned (e.e. Cyfrifiaduron, Cymraeg i Oedolion, Sgiliau Sylfaenol, Cymorth Cyntaf, Hylendid Bwyd Sylfaenol, Cymraeg fel Ail Iaith, Sgiliau Cynghori, ac ati).

A dweud y gwir, mae Coleg Meirion-Dwyfor yn darparu cyrsiau yn y rhan fwyaf o 'Feysydd Rhaglen' AADGOS - cryn gamp i goleg bychan, mewn ardal wledig.

Un o'r datblygiadau pwysicaf o ran y **ddarpariaeth gwricwlaidd** yn ystod y flwyddyn oedd cwblhau'r gwaith ar yr adnoddau arlwyo newydd yn Nolgellau (prosiect CEGIN). Darparwyd adnoddau arlwyo newydd, o'r radd flaenaf, i fyfyrwyr a staff, a bydd yn galluogi'r Coleg i ymateb yn well i anghenion busnesau lleol.

Mae ein gwaith gydag ysgolion uwchradd ar gynnydd. Mae llawer o ddisgyblion yn dod i'r Coleg i astudio cyrsiau galwedigaethol i atgyfnerthu eu gwaith ysgol. Mae staff y Coleg hefyd yn teithio i rai ysgolion i ddarparu cyrsiau a fydd yn cyfoethogi cwricwlwm myfyrwyr Cyfnod Allweddol 4. Mae diddordeb cynyddol yn y maes hwn, ac mae'r Coleg yn edrych ymlaen at weithio mewn partneriaeth ag ysgolion er lles y myfyrwyr. Mae'r datblygiad hwn yn ymateb cadarnhaol i Bolisi Llwybrau Dysgu 14-19 Llywodraeth y Cynulliad. Mewn partneriaeth ag ysgolion, Gyrfa Cymru a chyflogwyr, mae'r Coleg yn gweithredu'n unol â'i strategaeth Llwybrau Galwedigaethol 14-19, gan ymateb i anghenion canfyddadwy economïau lleol.

Mae Coleg Meirion-Dwyfor yn falch o'i ethos a'i natur ddwyieithog. Cynigiwn ran helaeth o'n cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, yn dibynnu ar ddewis y myfyriwr unigol. Rhoddir dewis i'r myfyrwyr astudio cyrsiau lefel A neu AS drwy gyfrwng eu dewis iaith (os oes maes llafur CBAC ar gael). Yn y rhan fwyaf o'r cyrsiau galwedigaethol, gall myfyrwyr gael eu haddysgu, eu hasesu a pharatoi aseiniadau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r amgylchedd ddysgu'n naturiol ddwyieithog (fel ethos y Coleg yn gyffredinol). Mae'r Coleg o'r farn fod hyn yn dod â manteision addysgol i bawb.

Cefnogaeth i Fyfyrwyr

Ceisia'r Coleg, mewn amrywiol ffyrdd, roi cefnogaeth i fyfyrwyr o bob oed. Cynhelir sesiynau tiwtora rheolaidd gyda thiwtoriaid personol, ac mae cefnogaeth o safon uchel ar gael ym maes sgiliau sylfaenol. Caiff myfyrwyr gyngor ac arweiniad o'r radd flaenaf gan Uned Yrfaoedd y Coleg (a Gyrfa Cymru Gogledd Orllewin). Gall myfyrwyr elwa hefyd ar y gwasanaethau cynghori arbenigol a ddarperir yn y coleg – gwasanaeth sydd ar gael ar yr holl brif safleoedd.

Mae'r Coleg yn falch o nodi bod Estyn, mewn archwiliad diweddar, yn ystyried bod cefnogaeth y Coleg i fyfyrwyr yn Ragorol (Gradd 1 – y radd orau bosibl).

Rhannwyd cyfanswm o £134,004 (o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn) i gefnogi myfyrwyr yn y coleg – 311 myfyriwr. Yn 2006/07 hefyd, bu'r Coleg yn gyfrifol am weinyddu'r cynllun Lwfans cynhaliaeth Addysg (EMA), a dderbyniwyd gan 505 o fyfyrwyr, ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Darperir cyfleusterau helaeth i'r myfyrwyr, a chânt rwydd hynt i ddefnyddio'r gwasanaethau modern a geir yn y llyfrgelloedd, ynghyd â'r offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae'r Coleg wedi parhau i ddatblygu ei ganolfannau e-ddysgu (yr hen lyfrgelloedd a'r ystafelloedd cyfrifiaduron). Oherwydd hyn, bu cynnydd arwyddocaol a hynod foddhaol yn nifer y myfyrwyr a staff sy'n defnyddio'r adnoddau.

Ansawdd

Unwaith eto, mae'n bleser gan y Coleg ddod â chanlyniadau arholiadau allanol y myfyrwyr i sylw'r cyhoedd.

Canlyniadau Lefel A a Lefel AS Coleg Meirion-Dwyfor am 2006/2007.

	Lefel A	Lefel AS
Graddau A	25.9%	30.1%
Graddau A – C	77.9%	71.1%
Graddau A – E	98.8%	91.8%

Isod, ceir crynodeb o gyflawniadau ein myfyrwyr yn y **cyrsiau galwedigaethol (y prif gymwysterau):**

	Nifer myfyrwyr ar ddechrau'r cwrs	Graddfa cyflawni	Graddfa llwyddo
Lefel 3	456	87%	74%
Lefel 2	263	89%	77%
Lefel 1	151	83%	92%
Lefel Sylfaenol	10	100%	100%

Yn ystod y flwyddyn, gwellodd y Coleg ei systemau Sicrhau Ansawdd, ac erbyn hyn mae manteision y newidiadau hynny'n dod i'r amlwg.

Asesiadau Ansawdd Allanol

Fis Mawrth 2007, edrychodd Arolygwyr Estyn ar 7 Maes Dysgu h.y. Gwyddoniaeth a Mathemateg, Adeiladwaith, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Lletygarwch ac Arlwyo, Hamdden, Teithio a Thwristiaeth, Celfyddydau Perfformio a Chelf a Dylunio. Dyfarnwyd Gradd 2 i bob maes, ac eithrio Celf a Dylunio y bernid ei fod o safon Gradd 1. O ddefnyddio graddau diweddaraf Estyn a graddau hunanasesiadau, dengys y proffil graddfa, fel y saif ar hyn o bryd, fod y Coleg wedi derbyn statws Gradd 2 yn ei holl Feysydd Dysgu, ac eithrio un, a gafodd radd 3 (h.y. llwyddodd 95% i gael Gradd 2 neu uwch). Bernir bod chwe Maes Dysgu o safon Gradd 1 (32%). Mae hwn yn broffil ansawdd calonogol iawn.

Cyrchfannau

Mae'r Coleg yn ymfalchïo yn nifer y myfyrwyr sy'n symud ymlaen i gyrsiau pellach neu i swyddi. Mae'r siart canlynol yn dangos cyrchfannau ein myfyrwyr yn ystod 2006/07.

Cyrchfan	Canran
Parhau i astudio yn y Coleg	30%
Cwrs pellach yng Ngholeg Meirion-Dwyfor	20%
Cwrs pellach mewn sefydliad Addysg Bellach arall	2%
Addysg Uwch	18%
Gwaith	16%
Arall	14%

Noder – mae'r ffigyrau uchod yn cynnwys yr holl fyfyrwyr a oedd yn astudio yn y Coleg..

Cyfranogiad

Mae nifer y myfyrwyr wedi aros yn eithaf sefydlog yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Tra bo nifer y myfyrwyr rhan-amser yn dal i gynyddu, bu gostyngiad bychan yn nifer y myfyrwyr amser llawn sy'n cofrestru ar gyrsiau. Mae hyn yn rhan o batrwm o newid demograffig a fydd yn parhau yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod, a bydd y

Coleg yn ymdrechu i addasu i'r newid hwn yn nosbarthiad poblogaeth yr ardal. Er gwaethaf y duedd hon, mae'r Coleg yn falch o adrodd i'r niferoedd gynyddu 5% yn ystod 2005/2006.

Staffio

Dyma'r nifer o staff a gyflogwyd gan y Coleg yn ystod y flwyddyn:

Categori	Nifer
Addysgu	142.8
Cefnogaeth addysgol	20
Cefnogaeth arall	6.1
Gweinyddu a Gwasanaethau Canolog	20.4
Adeiladau	7.4
Y fferm	4.9
Eraill	9.1
Cyfanswm	**214.4**

Fel yn achos unrhyw sefydliad mawr, symudodd nifer o staff i swyddi newydd yn ystod y flwyddyn. Hoffem ddiolch yn ddidwyll i'r rhai a ffarweliodd â ni, a dymuno'n dda iddynt yn eu gyrfaoedd newydd. Croeso cynnes i bawb sydd wedi ymuno â ni. Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau gweithio gyda ni, ac yn mwynhau cyfrannu at lwyddiannau'r myfyrwyr.

Adnoddau

Yn ystod y flwyddyn, buddsoddodd y Coleg yn helaeth er mwyn gwella'r adnoddau a'r cyfleusterau sydd ar gael i fyfyrwyr. Roedd hyn yn cynnwys cwblhau'r prosiect CEGIN yn Nolgellau, gan ddarparu gwell adnoddau. Buddsoddwyd hefyd mewn cyfarpar fideo-gynadledda ychwanegol a chyfrifiaduron.

Cyllid

Mae'r Coleg wedi cymryd camau pwysig o ran ymateb i'r pwysau ariannol sydd arno. Roedd perfformiad y Coleg yn ystod 2006/2007 yn hynod o dda, a gwelwyd gostyngiad sylweddol yn y diffyg gweithredol a'r diffyg o ran cost hanesyddol. Mae hyn yn well na'r perfformiad a ragfynegwyd yn Strategaeth Gyllidol y Coleg.

Y Prif Gyfrif Incwm a Gwariant am y flwyddyn yn diweddu 31Gorffennaf 2007.

Incwm	**2006/2007**	**2005/2006**
Grantiau AADGOS	7,322,482	6,960,743
Ffioedd addysgu a chontractau addysgol	454,740	415,168
Grantiau a chontractau ymchwil	309,102	244,953
Incwm arall	1,105,425	971,627
Incwm o fuddsoddiadau	179,456	167,868
Cyfanswm yr Incwm	**9,371,205**	**8,760,359**

Gwariant	**2006/2007**	**2005/2006**
Costau staffio	6,329,638	6,044,761
Costau eithriadol ad-drefnu staff	25,250	44,757
Costau gweithredol eraill	2,331,989	2,238,736
Llog taladwy	10,000	20,000
Dibrisiant	564,414	508,693
Cyfanswm y gwariant	**9,261,291**	**8,856,947**
Elw o werthu asedau a etifeddwyd	0	1,553
(Diffyg)/Gweddill ar weithgareddau parhaus	109,914	(95,035)

Gellir cael rhagor o wybodaeth am Goleg Meirion-Dwyfor, a chopïau ychwanegol o'r adroddiad hwn, neu o brosbectws y Coleg, drwy gysylltu â Dr Ian J Rees (Pennaeth a Phrif Weithredwr) yn y Coleg.

Fersiwn Cymraeg o ddogfen ddwyieithog yw hwn.

Gwariant rheolaidd

£8,696,877 oedd cyfanswm gwariant rheolaidd y Coleg (heb gynnwys dibrisiant) yn ystod 2006/2007. Yn y siart isod, cymherir gwariant 2005/2006 a gwariant 2006/2007 dan wahanol benawdau gwariant.

	2006/2007	**2005/2006**
Staff	6,354,888	6,089,518
Treuliau gweithredol – Addysgu a Dysgu	768201	773,090
Treuliau gweithredol - Gweinyddu	332,982	294,142
Adeiladau	670,757	625,468
Nawdd	26,025	44,761
Gwariant ar weithgareddau cynhyrchu incwm	534,024	501,275
Llogau (Cynllun Pensiwn FRS 17)	10,000	20,000
CYFANSWM	**8,696,877**	**8,348,254**



Trefn Lywodraethol

Yn ystod y flwyddyn, cyfarfu'r Corff Llywodraethu (Y Gorfforaeth) 5 gwaith i dderbyn ac ystyried gwybodaeth sy'n ymwneud â gweithgareddau amrywiol y Coleg. Mabwysiadodd y Gorfforaeth ddulliau gweithredu mewn perthynas â derbyn gwybodaeth, ac mae'r dulliau hynny'n gymorth o ran hybu gwneud penderfyniadau prydlon a phriodol. Mae hyn yn gymorth i sicrhau bod systemau rheoli a llywodraethu'r Coleg yn gweithio'n effeithiol.

Er mwyn i'r llywodraethwyr gyflawni eu dyletswyddau, cynigir cyngor a hyfforddiant cyson iddynt. Trefnir sesiynau hyfforddi mewnol, ac anogir a chefnogir aelodau'r Gorfforaeth i fynychu cyrsiau a ddarperir gan gyrff allanol.